# SWYDD DDISGRIFIAD

**Teitl y Swydd:** Swyddog Cyfathrebu Meddwl Ymlaen Gwent

**Cyflogir gan:** ProMo-Cymru

**Cyflog:** Cyflog cychwynnol Graddfa A pwynt 4 £20,376 - Graddfa A pwynt 6 £21,448 y flwyddyn (pro rata)

**Lleoliad:** Swyddfeydd ProMo-Cymru a gweithio o gartref

**Oriau gwaith:** 7 awr yr wythnos

**Gwyliau:** 23 diwrnod y flwyddyn (pro-rata)

**Hyd y cytundeb:** Parhaol (yn amodol ar gyllid)

**Yn atebol i:** Rheolwr Prosiect Meddwl Ymlaen Gwent

**Yn gyfrifol am:** Amherthnasol

## Gweledigaeth ProMo-Cymru

Mae ProMo-Cymru yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc a chymunedau yn wybodus, yn cyfrannu, yn gysylltiedig ag yn cael eu clywed.

## Ein Dull o Weithio

Rydym yn cydweithio i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol. Yn cefnogi'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell.

Mae ProMo-Cymru yn gweithio gyda chymunedau trwy gyfathrebiadau, eiriolaeth, ymgysylltiad diwylliannol, digidol a chynnyrch cyfryngol. Mae dros 20 mlynedd o drosglwyddo prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol yn dylanwadu ein gwaith. Rydym yn rhannu'r wybodaeth yma drwy hyfforddiant ac ymgynghoriad, yn creu partneriaethau hir dymor fydd yn buddio pobl a sefydliadau.

Mae ProMo-Cymru yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol; mae'r elw yn cael ei fuddsoddi'n ôl i'n prosiectau cymunedol.

**PRIF BWRPAS Y SWYDD YMA**

Mae ProMo-Cymru yn chwilio am **Swyddog Cyfathrebu** creadigol i gefnogi gyda throsglwyddo'r prosiect Meddwl Ymlaen Gwent cyllidwyd gan y Loteri Genedlaethol.

Wrth weithio law yn llaw dros gyfnod 5 mlynedd gyda'n prif bartner trosglwyddo Mind Casnewydd, ein partneriaid prosiect a phobl ifanc, byddem yn cynllunio dulliau newydd ymyrraeth gynnar ac atal problemau iechyd meddwl ymysg pobl ifanc sydd yn byw yng Ngwent.

Fel aelod gwerthfawr o'r tîm ProMo-Cymru byddech yn gyfrifol am y marchnata a'r cyfathrebu ar gyfer y prosiect cyffroes ac arloesol Meddwl Ymlaen Gwent.

**PRIF DDYLETSWYDDAU**

- Gweithio gyda phobl ifanc i gyd-gynhyrchu cynnwys
- Ysgrifennu a golygu erthyglau ar gyfer gwefannau, papurau newydd, dyddiaduron neu gylchlythyrau yng Nghymraeg a/neu Saesneg
- Hysbysebu'r prosiect ar draws sawl llwyfan cyfryngau cymdeithasol, rhoi hwb i bost cyfryngau cymdeithasol, a dadansoddi perfformiad
- Creu cynnwys digidol dengar gan gynnwys graffeg, fideo a podlediad

Yn ychwanegol i'r dyletswyddau a chyfrifoldebau uchod bydd disgwyl i'r un sydd yn y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau a thasgau eraill sydd ei angen i sicrhau llwyddiant y prosiect wrth gyrraedd ei ganlyniadau a'i amcanion.

**PROFIAD A MANYLEB PERSON:**

| **Gofynion** | **Hanfodol** | **Dymunol** | **Sut Dynodir // Asesir** |
|---|---|---|---|
| Addysg/ Cymwysterau: | Cymwyster(au) perthnasol mewn maes cysylltiedig | | Ffurflen gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Profiad: | Profiad cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu, yn ddelfrydol mewn gosodiad proffesiynol<br><br>Ysgrifennu/golygu erthyglau ar gyfer y we, papurau newydd, dyddiaduron neu gylchlythyrau yng Nghymraeg a/neu Saesneg<br><br>Cyd-gynhyrchu cynnwys gyda phobl ifanc a chymunedau | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Sgiliau: | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar gwych<br><br>Sgiliau rhyngbersonol da<br><br>Sgiliau rheoli amser, trefnu, cynllunio ac amldasgio gwych<br><br>Sgiliau TGCh gwych | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Gwybodaeth: | Lefel uchel o lythrennedd digidol gan gynnwys gwe, cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg amlgyfrwng<br><br>Ymwybyddiaeth o amryw rwydwaith cyfryngau cymdeithasol a'u pwrpas/gweithrediadau | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Nodweddion Personol: | Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar liwt eich hun, yn ogystal â fel rhan o dîm<br><br>Hyblyg a pharod i newid | | Cyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofynion erail: | Ymrwymiad i weithio i, a chynnal gwerthoedd, ethos a diwylliant ProMo-Cymru, gan gynnwys dull wedi'i selio ar hawliau<br><br>Parodrwydd i deithio ledled Cymru fel sydd angen<br><br>Parodrwydd i weithio oriau hyblyg yn ôl angen busnes<br><br>Mae'r swydd yma yn ddibynnol ar wiriad DBS uwch | Trwydded gyrru<br><br>Siaradwr Cymraeg | Ffurflen gais a chyfweliad |

**Gall y swydd ddisgrifiad yma fod yn destun i adolygiad a newidiadau i gynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau penderfynir mewn ymgynghoriad â'r un sydd yn dal y swydd. Nid yw'n fwriad iddo fod yn anhyblyg, ond dylid ei ystyried fel darparu fframwaith mae'r unigolyn yn gweithio iddo.**

### DIWEDD###